CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

Cyngor gan Gymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC) ar baratoadau a phroses cynhadledd y maes llafur cytunedig wrth argymell maes llafur cytunedig newydd i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Mai 2022.

Cwestiynau Cyffredin

All Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig (y Gynhadledd) argymell fod yr Awdurdod Lleol yn mabwysiadu'r Canllawiau CGM fel y maent ar Hwb, trwy roi dolen iddo ar wefan y Cyngor?

Na all. Mae'n rhaid gallu adnabod y Maes Llafur Cytunedig fel Maes Llafur cytunedig yr awdurdod ei hun, er y gallant ystyried ei bod yn briodol tynnu'n gryf/yn llwyr ar y Canllawiau CGM a darparu dolen i'r canllawiau CGM o fewn y ddogfen honno. Dylai fod yn amlwg o'r ddogfen ei hun mai dyma'r Maes Llafur Cytunedig.

Pa mor fawr/manwl y mae'n rhaid i'r maes llafur cytunedig lleol fod?

Mae'n bwysig fod y maes llafur cytunedig yn hygyrch i'w gynulleidfa eang, h.y. yn hawdd ei ddarllen a'n hawdd ei ddeall. Oherwydd hynny, ni ddylai fod yn rhy hir neu anhylaw. Fodd bynnag, mae angen iddo gynnwys rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am CGM a chynnig canllawiau addas ar gyfer darparu CGM mewn ysgolion. Mae'n bwysig nodi fod yr wybodaeth yma i gyd yn bodoli'n barod o fewn y Canllawiau CGM ar Hwb ac felly nid oes angen ei ddyblygu, ond yn hytrach ei gyflwyno a chyfeirio'r darllenydd ato.

All ein Cynhadledd leol godi'r testun o'r Canllawiau CGM ar Hwb a'i roi mewn PDF ac argymell hwn fel y maes llafur cytunedig lleol ?

Nid yw hyn yn cael ei argymell. Mae dolenni wedi'u gosod yn y Canllawiau CGM ar Hwb, i rannau eraill o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sy'n ei wneud yn rhyngweithiol ac yn haws i ymarferwyr ei ddefnyddio. Felly, bydd dyblygu'r testun cyfan a'r fformat mewn copi caled yn ei wneud llai effeithiol ac yn colli'r diben gwreiddiol. Byddai perygl hefyd fod y maes llafur cytunedig yn dyddio a ddim yn cynnwys unrhyw newidiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru i'r canllawiau ar Hwb. Cynghorir mai ateb gwell fyddai i'r maes llafur cytunedig lleol roi dolen i'r canllawiau ar Hwb a/neu ddolenni ar wahân i adrannau arbennig. Drwy wneud hynny gall ymarferwyr gael mynediad ato a'i ddefnyddio'n rhyngweithiol yn ôl y bwriad, mewn un lle.

All Cynhadledd newid y testun o'r Canllawiau CGM ar Hwb, a'r crynodeb cyfreithiol ar CGM, i adlewyrchu dewisiadau lleol i'r maes llafur cytunedig lleol?

Nid yw hyn yn cael ei argymell. Bydd gwneud newidiadau i'r testun o'r Canllawiau CGM neu'r crynodeb o'r ddeddfwriaeth yn ddryslyd a chamarweiniol a bydd yn effeithio'n ddiangen ar lwyth gwaith, yn enwedig i ysgolion ac ymarferwyr. Mae'n rhaid i bob ysgol yng Nghymru 'roi sylw' i'r Canllawiau CGM ar Hwb fel rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac felly dylai'r maes llafur cytunedig gefnogi hyn. Os oes ystyriaethau neu enghreifftiau lleol y dymuna'r Gynhadledd eu codi, byddai'n well rhoi'r rhain ar wahân mewn atodiad.

Os oes gan unrhyw Gynadleddau neu Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog bryderon am y ddeddfwriaeth yn y canllawiau dylent godi hyn gyda Llywodraeth Cymru fel mater o frys.

Beth sy'n digwydd os nad yw'r Gynhadledd yn gallu cytuno'n unfrydol ar faes llafur cytunedig i'w argymell i'r awdurdod lleol?

Mater yw hwn i'r Gynhadledd ei ddatrys ac os oes angen gallant ofyn i'r ALl am gymorth i symud ymlaen. Er mwyn argymell maes llafur cytunedig i'r ALl, mae'n rhaid i Gynhadledd y Maes Llafur Cytunedig gael pleidlais unfrydol o blaid y maes llafur a baratowyd, felly mae'n hanfodol datrys hyn, neu bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Beth sy'n digwydd os yw ysgolion/ymarferwyr lleol yn dweud nad yw'r canllawiau CGM yn cynnig digon o arweiniad?

Nid cynllun gwaith yw maes llafur cytunedig i fod. Dylai ddarparu fframwaith ac oddi mewn iddo gall pob ysgol ddylunio'i chwricwlwm lleol ei hun sy'n cynnwys CGM o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Gall rhai meysydd llafur cytunedig gynnwys atodiadau sy'n rhoi deunydd enghreifftiol. Fodd bynnag, gan ei bod yn dal yn ddyddiau cynnar nid oes deunydd enghreifftiol ar gael bob amser. Mae hyn yn rhywbeth y gellid ei ychwanegu'n ddiweddarach. Yn y cyfamser mae Llywodraeth Cymru'n darparu gwaelodlin o adnoddau dysgu proffesiynol i ysgolion ac ymarferwyr a fydd yn eu cefnogi i ddylunio'u cwricwlwm i gynnwys CGM yn unol â'r canllawiau a'u maes llafur cytunedig lleol.